

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon.
A gynhaliwyd ar Nos Fercher Mawrth 12fed 2014
am 7 - 0 o'r gloch.

1. **Croeso** - Agorwyd y Cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng. Megan Roberts, gan estyn croeso cynnes i bawb oedd yn bresennol.
Presennol - Cynghorwyr Megan Roberts (Cadeirydd), Emlyn Jones, Mary Ellis, Alan Owen, Dafydd Roberts, Ann Roberts, Gareth Moore (Is - gadeirydd), Lewis Davies, Ruth Roberts, Wyn Hughes, Delyth Jones a Geraint Parry (Clerc).
2. **Ymddiheuriadau:-**
Cyng. Ward Seiriol - Alwyn Rowlands, Carwyn Jones
3. **Cofnodion**
Derbyniwyd Cofnodion y Cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 12fed o Chwefror, fel rhai cywir gan Cyng. A Roberts ac eiliwyd gan Cyng. E Jones.
Bawb i anfon ymlaen unrhyw faterion sydd angen ei godi, wythnos o flaen y cyfarfod nesaf i'r Clerc.
4. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
 - 4.1 **Palmant Tros yr Afon** - Clerc wedi anfon llythyr i Mr Geoff Owen. Cyng. L Davies i drafod y mater gyda Mr Owen.
 - 4.2 **Sgwâr Tawelfan** - Cyng. L Davies i drafod y plannu gydag Ysgol Gynradd. Cyng. D Jones yn cynnig i wneud y chwynnu. Hefyd yn gofyn oes bosib gofyn i'r Clwb Garddio helpu gyda'r plannu. Awgrymwyd bydd rhaid i un aelod o'r Clwb Garddio cael CRB. Hefyd cytuno i gael barn clwb ieuenctid.
 - 4.3 **Wefan y Cyngor Cymuned** - Cyng. E Jones yn gofyn a fu bosib gosod linciau i wefan Castell Aberlleiniog a Twristiaeth. I anfon y linciau ymlaen i'r Clerc.
 - 4.4 **Niwed i Giatiau'r Eglwys** - Giatiau wedi mynd i gael ei atgyweirio.
 - 4.5 **Arwydd wedi troi ger mynedfa i'r Warchodfa** - Eglurodd y Clerc oherwydd y gost uchel mae'r Cyngor Sir yn mynd i ddod o amgylch yr ardal i atgyweirio'r arwyddion.
 - 4.6 **Giât ar lwybr troed Gwelfor** - Cyng. L Davies wedi trafod y mater gyda swyddogion Ardal o Harddwch y Cyngor Sir. I gysylltu ymhellach gyda William Vaughan.
 - 4.7 **Nenfwd y Neuadd** - gwaith wedi dechrau i atgyweirio'r nenfwd
 - 4.8 **Tir Comin 1 Pen y Berth** - perchennog wedi gofyn am ganiatâd i gael mynediad i'r safle drwy'r tir comin er mwyn dadlwyddo a storio deunyddiau adeiladu am gyfnod byr. Gwaith i adeiladu'r wal nawr wedi ei gwblhau ac mae'r tir mewn cyflwr da.
 - 4.9 **Torri Coed 2 Pen y Berth** - Nid yw gwaith i dorri'r coed wedi dechrau eto, disgwyl am y contractwr.
 - 5.0 **Rocky Lane** - gwaith wedi dechrau gan Gerddi Haulfre i chwistrellu'r mwsogl a thorri canghennau sy'n tyfu trosodd y llwybr.
5. **Datgan Diddordeb**
 - Neb yn datgan diddordeb
6. **Sylwadau Ceisiadau Cynllunio**
Dim cais i drafod
7. **Adroddiad gan y Cynghorwyr Lleol**
 - 7.1 Wedi trafod y mater gyda swyddog o'r Cyngor Sir i gau tyllau lleol o gwmpas y pentre'.
 - 7.2 Problem fawr gyda charthffosiaeth dod i fyny ar y tir yn yr ardal hon. Nid yw pobl yn adrodd ar y mater hwn, felly nid yw yn cael ei gofnodi. Wedi ymgynghori gyda Cyngor Sir a Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn rhoi pwysa ar Dwr Cymru i ddatrys y broblem. Mae hon yn broblem barhaus enwedig dilyn glaw trwm. Cyng. D Jones - mae hanes bod gwn lleol wedi bod yn sâl o gylch maes parcio'r neuadd, a oes cysylltiad?
8. **Neuadd y Pentre'**
Carthffosiaeth wedi codi eto trwyr "manholes" ym maes parcio'r Neuadd. Clerc wedi cysylltu â Dwr Cymru, lle maent wedi cadarnhau oedd rhwystr yn y beipen ger Glan Llyn.
Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir ynghlyn a chael grant i adeiladu'r ramp. Ffurflen ar gael diwedd mis Mawrth.

9. Prosiect Afon Lleiniog

Cyfarfod 12/03/14 – Ruth, Emlyn ar Clerc.

- Disgwyl manylion contract GLASTIR, rhagorol ers mis Ionawr.
- Angen gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau. Cyng. M Ellis yn adrodd bod wedi gweld beics ar y llwybrau, sydd yn beryglus i ddefnyddwyr eraill.
- Coeden wedi disgyn ar dir Menter Môn sydd ar wylod allt Tros yr Afon.
- Cyng. A Roberts - bin wedi cael ei symud ar y llwybr.

10. Cyfrifon

Taliadau, penderfynwyd talu:-

Aelodaeth Un Llais 2014/15 - £167.00

Derbyniwyd cais gan Lloyds Banc i gael mynediad electronig i ein cyfrifon. Penderfynwyd cymeradwyo'r dull hwn, Clerc i weithredu.

11. Gohebiaeth

e-bost M Sillitoe, Tai Fforddiadwy

Llythyr – Aelodaeth Un Llais

Llythyr – Banc Lloyds

Llythyr – Cyngor Sir, Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa

Llythyr – Annette Jones, Llangoed WI

Apêl – Canser Plant

12. UFA:

- 12.1 Teiars ar ddau gerbyd oedd wedi parcio yn y stryd wedi cael eu torri.
- 12.2 Cais gan Annette Jones i gael plannu blodau yn ardd y Neuadd. Clerc wedi anfon y cais ymlaen i Derek Jones.
- 12.2 Clerc wedi llenwi ffurflen Grant Cymunedol i gael gosod y meinciau yn sgwâr Tawelfan.
- 12.3 Cyng. R Roberts - arwydd ger gwarchodfa Bws ym Mhenmon ddim yn syth, wedi cael ei chwythu drosodd yn y gwynt.
- 12.4 Coeden wedi dod lawr ger mynedfa Plas Iolyn. Wedi ei glirio gan Gareth Owen.
- 12.5 Cymdeithas Tai Gogledd Cymru wedi ail dendro ac mae'r cynllun wedi ei gymeradwyo gan eu bwrdd rheoli. Maent yn awyddus i gynnal dwy noson agored arall er mwyn codi ymwybyddiaeth eto a rhoi cyfle i bobl ddod ymlaen, i gael ei drefnu yn y 2-3 wythnos nesaf.
- 12.6 Cyng. M Roberts - tipio anghyfreithiol yn y cae tu cefn i Bryn Paun.
- 12.7 Clerc wedi cysylltu ar Cyngor Sir i greu ardal "Dim Galw heb wahoddiad" - disgwyl mwy o wybodaeth.
- 12.8 Cyng. D Jones – gofyn oes bosib cael bin baw ci ger yr Ysgol. Cyng. L Davies i drafod gyda'r Cyngor Sir.
- 12.9 Cyng. M Ellis - clawdd ardd Cae Person Bach ym mheryglus oherwydd bod toriadau gwair ayyb wedi cael ei gosod ar y clawdd a chael ei dal yno gan faled pren. Hefyd llwybr yn Tawelfan dim ddigon llydan i gadair olwyn i basio drwy'r rhwystrau ac mae'r wyneb yn dirywio.
- 12.10 Cyflwr y lôn yn Lleiniog yn wael iawn.
- 12.11 Cynghorwyr M Roberts, M Ellis ac D Jones wedi ymuno a chyfarfod Cymunedol ar 11/3/14. Pwrpas y cyfarfod oedd trio creu pwyllgor er mwyn cael grantiau i blant a phobl y Pentre'. Cyfarfod nesaf i gael ei gynnal ar 23/4/14 am 7 o'r gloch yn y Neuadd. Clerc i gael y gweithredoedd ar gyfer y cae cymunedol.
- 12.12 Daith beics 11/05/14 i godi arian ar gyfer y cymunedau.
- 12.13 Cyng. A Roberts – bont y rhyd wedi cael ei daro.
- 12.14 Curo'r ffiniau 26/5/14.

13. Dyddiad cyfarfod nesaf:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

Daeth y cyfarfod i derfyn am 8.25 o'r gloch.

Cyfarfod nesaf 09/04/14.

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad